Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Gêm geirfa gwastraff a thipio anghyfreithlon

**Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar yr eirfa sy'n ymwneud â phroblem gwastraff, sbwriela a thipio anghyfreithlon, a'u heffaith ar yr amgylchedd, cymunedau a'r economi.**



Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru ydy ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ym mhob rhan o'n gwaith. Mae hyn yn golygu gofalu am awyr, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Nodau

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd dysgwyr yn gallu:**

- **Enwi geirfa allweddol sy'n ymwneud â gwastraff a sbwriela**
- **Trafod rhai o'r materion sy'n ymwneud â gwastraff, sbwriela a thipio anghyfreithlon**

## Hyd y sesiwn

20 munud

## Maes Cwricwlwm

ADCDF
Daearyddiaeth

## Lleoliad

Unrhyw le

**Ebost:** addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.adnoddaunaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Dolenni Cwricwlwm

**CA2 ADCDF**
**Defnyddio a gwastraffu**
Y gall gwastraff achosi llygredd
O ble bydd y pethau y mae pobl yn ei ddefnyddio'n dod ac i ble maen nhw'n mynd

**CA2 Daearyddiaeth**
**Astudiaeth**
Byw yn fy myd: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd y byd

**CA3 ADCDF**
**Defnyddio a gwastraffu**
Gwerthfawrogi'r gweithredoedd sydd eu hangen er mwyn lleihau'u hôl troed ecolegol eu hunain ac i leihau gwastraff

**CA3 Daearyddiaeth**
**Astudiaeth**
Dinasyddion yfory: pynciau llosg yng Nghymru a'r byd mawr o ran byw'n gynaliadwy a'r cyfrifoldebau o fod yn ddinesydd y byd

## Offer ac adnoddau

- **Cardiau trafod: cardiau geirfa gwastraff a sbwriela. Mae hyn yn cynnwys:**

**12 cerdyn geiriau**
**12 cerdyn lluniau**
**12 cerdyn diffiniadau**

## Beth i'w wneud

Argymhellir eich bod yn cynnal y gweithgaredd hwn fel cyflwyniad i weithgareddau eraill sy'n canolbwyntio ar wastraff, sbwriela a thipio anghyfreithlon. Bydd yn rhoi cyflwyniad sylfaenol cyffredinol i'r pwnc i ddysgwyr ac yn cyflwyno geirfa allweddol.

Mae'r gêm yn cynnwys 12 set o 3 cherdyn.

Mae gan bob set air sy'n gysylltiedig â gwastraff, sbwriela a thipio anghyfreithlon, ei ddiffiniad a cherdyn llun. Gellir dewis neu hepgor geiriau arbennig yn dibynnu ar allu'r grŵp a ffocws y pwnc. Does dim rhaid defnyddio'r cardiau i gyd.

Gellir addasu'r gweithgaredd a'i gynnal mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Rhannwch y cardiau geiriau a lluniau, un i bob dysgwr neu bâr o ddysgwyr, sy'n eistedd mewn cylch. Bydd arweinydd y grŵp yn cadw'r cardiau diffiniad ac yn eu darllen i'r grŵp un ar y tro.

  Rhaid i'r dysgwyr adnabod os oes ganddyn nhw'r cerdyn gair neu lun sy'n cyfateb. Yna gellir arddangos y cardiau cyfatebol yng nghanol y cylch er mwyn i'r grŵp cyfan eu gweld.
- Rhannwch y setiau cardiau rhwng grwpiau bach o ddysgwyr iddyn nhw'u paru. Unwaith y byddant wedi cyfateb y cardiau, gall y grwpiau gyflwyno'u cardiau ac esbonio i'r grwpiau eraill sut y maent yn cyd-fynd.
- Mae gan grwpiau o ddysgwyr yr un set o gardiau. Yna gallant gymharu sut y bu iddynt gyfateb y cardiau a phenderfynu a ydyn nhw'n gywir.
- I wneud gêm fwy bywiog, rhowch gerdyn i bob dysgwr. Yna maen nhw'n cylchynu, gan edrych ar gardiau'i gilydd ac yn trafod i ddod o hyd i ddysgwyr sy'n dal cardiau sy'n cyd-fynd â'u cerdyn nhw. Pan fydd y dysgwyr yn darganfod eraill â cherdyn sy'n cyd-fynd, byddan nhw'n ffurfio grŵp sy'n cynnwys set o gardiau i gynnwys cerdyn gair, cerdyn diffiniad a cherdyn llun. Gall y grŵp archwilio pob set a phenderfynu a ydyn nhw wedi dod ynghyd yn gywir.
- Pan fydd y dysgwyr yn fwy cyfarwydd â'r geiriau a'r diffiniadau, gellir cynnal y gweithgaredd fel gêm gyfnewid wrth i grwpiau o ddysgwyr rasio i baru'r cardiau yn yr amser cyflymaf.
- Gellir defnyddio'r cardiau i chwarae gemau fel chwap neu barau cofio (pawb yn ei dro i ddatgelu tri cherdyn ar y tro, casglu'r setiau sy'n cyd-fynd hyd nes i bob cerdyn gael ei gasglu).

## Addasu ar gyfer anghenion / gallu gwahanol

Llai galluog:
- Defnyddiwch lai o gardiau
- Trefnwch fformat o'r gweithgaredd sydd yn fwy o dan arweiniad oedolyn
- Peidiwch â chynnwys y cardiau diffiniad er mwyn i ddysgwyr baru'r cardiau gair a llun yn unig.

Mwy galluog:
- Defnyddiwch bob un o'r cardiau a defnyddiwch fformat mwy heriol o blith y gweithgaredd a ddisgrifiwyd uchod.

## Gweithgaredd dilynol / ymestynnol

Rhowch gynnig ar ein gweithgareddau gwastraff eraill:

- Sbwriel sy'n para am byth
- Clipiau papur newydd
- Dal tipiwr anghyfreithlon
- Tri C sbwriela a thipio anghyfreithlon
- Wyddoch chi...
- 'Minesweeper' y crwban môr


Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni:
Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3000

www.cyfoethnaturiol.cymru



Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
FSC® C-115912

Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Revive offset 100% recycled paper
FSC® C008921

NRWRC000